Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Talhaiarn**
**Ysgol Talhairan**
**Stryd Yr Eglwys**
**Llanfair Talhaiarn**
**Sir Conwy**
**LL22 8SD**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2012**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a’i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae’r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae’r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy’n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau’n gorbwyso’r meysydd i’w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae’r meysydd pwysig i’w gwella yn gorbwyso’r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/08/2012**

## Cyd-destun

Cafodd Cylch Meithrin Talhaiarn ei sefydlu dros chwe blynedd yn ôl ac wedi'i leoli mewn caban sydd ar dir yr ysgol gynradd leol. Mae'r Cylch yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Conwy ac yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant pentref Llanfair Talhaiarn a'r ardal wledig o'i gwmpas. Nid yw'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol naill ai'n ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner am bum bore'r wythnos ar gyfer plant tair i bedair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae 2 blentyn tair oed, wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Saesneg yw'r iaith a siaredir gartref gan bron bob plentyn. Nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan ddwy ymarferydd llawn amser ac un ymarferydd ychwanegol sy'n rhan-amser. Mae'r arweinydd, wedi'i chymhwyso'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Ar ôl i'r plant orffen eu cyfnod yn y lleoliad, byddant yn parhau gyda'u haddysg yn Ysgol Gynradd Talhaiarn.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Ionawr 2012. Dyma ei arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus iawn;
- ystod eang o brofiadau dysgu yn ennyn diddordeb plant a'u galluogi i wneud cynnydd da mewn dysgu;
- plant yn cael eu cymell i fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol;
- cynllunio effeithiol ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- ansawdd yr addysgu ac asesu yn gadarn, a
- phlant yn hapus yn y lleoliad ac yn derbyn gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad ac mae'n cyfleu disgwyliadau uchel;
- ymarferwyr yn barod i ymgymryd â blaenoriaethau cenedlaethol ac â mentrau newydd;
- y pwyllgor rheoli yn darparu cefnogaeth gref i'r arweinydd gyda'r swyddogion yn cyflawni eu cyfrifoldeb yn gydwybodol;
- trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith;
- hunan-arfarnu'n datblygu'n dda, a'r
- lleoliad yn manteisio'n sylweddol o'r bartneriaeth gynhyrchiol sydd rhyngddo a'r ysgol gynradd.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 barhau i ddatblygu trefniadau hunan-arfarnu, a
A2 gwneud yn siŵr bod cyfleoedd i'r pwyllgor rheoli gyfranu i'r trefniadau hunan-arfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gyd-gynllunio gofalus, llwydda ymarferwyr i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb plant a'u galluogi i wneud cynnydd da ar draws holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant ac yn bodloni anghenion plant o'r holl ystod gallu, gan gynnwys y rhai mwy abl a thalentog.

Mae'r amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu y mae ymarferwyr yn eu darparu yn annog plant i ffurfio perthynas gadarnhaol â phobl eraill a dangos parch a goddefgarwch at bobl o bob cefndir diwylliannol. Caiff pob plentyn ei gymell i fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd ac i archwilio ei amgylchedd yn hyderus a dod yn ddysgwr annibynnol. Trwy arsylwi ar wyau yn deori a gweithgareddau cyffrous eraill tebyg, caiff plant gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu sut i drin a pharchu pethau byw.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a medrau meddwl ar draws y meysydd dysgu. Rhoddir pwyslais cryf ar sicrhau bod plant o'r holl ystod gallu yn caffael y medrau llythrennedd a chyfathrebu angenrheidiol er mwyn gallu manteisio ar y cwricwlwm cyfan. Caiff plant eu hannog yn gyson i siarad am eu gwaith, i ymddiddori mewn storïau a llyfrau ac i ddefnyddio ystod o gyfryngau ar gyfer gwneud marciau.

Trwy anogaeth gyson, mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus iawn ac yn cymell plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo'r modd yn eu dysgu. Trwy ddathlu achlysuron megis Dydd Gŵyl Dewi, hyrwyddir ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus iawn.

Mae'r cwricwlwm yn helpu plant yn dda i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd yn addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Caiff plant rôl weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r lleoliad a thrwy weithgareddau symbylol megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, dônt i wybod mwy am y byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plentyn a dealltwriaeth drylwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gweithgareddau a gynllunnir dan do ac yn yr awyr agored, yn cynnwys her addas ac yn bodloni anghenion unigol yr holl blant. Rhoddir pwyslais cryf ar roi cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae ac i fod yn weithredol yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn disgwyl llawer gan bob plentyn ac yn

llwyddo i gadw cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dewis gan y plant eu hunain a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan oedolion. Caiff ymddygiad plant ei reoli mewn ffordd dawel a chadarn ac anogir pob unigolyn i gymryd cyfrifoldeb dros ei weithredoedd.

Mae’r holl ymarferwyr yn fedrus yn eu gwaith ac yn cyfrannu’n sylweddol at ansawdd dysgu plant. Gwnânt ddefnydd dychmygus o amrywiaeth o adnoddau i ddenu diddordeb plant ac i wella dysgu. Mae ymarferwyr yn fodelau iaith da eu hunain. Yn ystod sesiynau, maent yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau siarad a gwrando plant. Mae eu cwestiynu medrus ynghyd â’u hymyrraeth amserol yn chwarae plant, yn llwyddo i herio syniadau ac ymestyn dysgu plant.

Mae'r holl staff yn asesu plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac yn cadw cofnodion manwl o gynnydd a lles pob plentyn ar draws y meysydd dysgu. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau defnyddio gwybodaeth asesu yn bwrpasol i gynllunio’r camau nesaf yn nysgu’r plant. Trwy dderbyn portffolio diddorol o waith eu plentyn, caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol am ei gyflawniad, ei les a'i ddatblygiad. Cânt hefyd arweiniad ar sut y gallant helpu eu plentyn i wella.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae pob plentyn yn hapus wrth ddod i'r lleoliad yn y boreau ac yn gyfforddus wrth fynd at yr ymarferwyr i ofyn am gymorth ac arweiniad. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, maent yn cadw cofnodion manwl o'u hanghenion ac yn sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu bodloni. Pan fo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad, bydd ymarferwyr yn cydweithio’n glos gyda’r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol eraill er mwyn sicrhau darpariaeth briodol.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Caiff gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at oedolion a phlant eraill eu hatgyfnerthu’n gyson ac effeithiol trwy bob agwedd ar fywyd a gwaith y lleoliad.

Mae'r trefniadau sefydlu trylwyr ynghyd â'r berthynas agos gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant newydd yn ymgartrefu'n sydyn yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal mawr o bob plentyn ac yn sicrhau eu diogelwch bob amser.

Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau addas ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Mae'n llwyddo'n dda i helpu pob plentyn i gyflawni iechyd a lles emosiynol a chorfforol da, i fanteisio'n llawn ar y profiadau dysgu a ddarperir ac i gymryd rhan lawn ym mywyd y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol os bydd heriau'n codi mewn perthynas â bwlio, ymddygiad annerbyniol neu amheuaeth o gam-drin.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

### Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar ei gyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o

aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda'r lleoliad i greu amgylchedd cartrefol ac ysgogol lle y gall plant fanteisio'n llawn ar eu profiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Cânt eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Caiff yr adnoddau yn yr ardal y tu allan eu defnyddio'n arbennig o effeithiol i ysgogi chwarae dychmygus a medrau personol a chymdeithasol y plant. Drwy ddefnyddio buarth chwarae'r ysgol gynradd yn rheolaidd, mae'r lleoliad yn ychwanegu'n sylweddol at ddatblygiad corfforol plant. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd effeithiol o'r amgylchedd lleol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n llawn.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad. Mae'n cyfleu disgwyliadau uchel ac yn cefnogi ac yn herio pawb i ymdrechu orau gallant. Mae ethos cadarnhaol yn treiddio drwy'r lleoliad gyda phlant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn fel tîm, maent yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas ac yn gwneud yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae eu parodrwydd i ymgymryd â blaenoriaethau cenedlaethol a mentrau newydd yn gryfder. Mae nodau a pholisïau clir wedi'u sefydlu sy'n canolbwyntio ar anghenion plant ac yn cael eu gweithredu'n gydwybodol. Mae'r berthynas gyda'r plant a'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu ymdeimlad o gymuned.

Mae'r pwyllgor rheoli yn darparu cefnogaeth gref i'r arweinydd, gyda'r swyddogion yn cyflawni eu cyfrifoldeb yn gydwybodol. Maent yn gwneud yn siŵr bod unrhyw gwynion yn cael eu datrys yn brydlon a bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Er bod swyddogion y pwyllgor yn cymryd rhan weithredol yn nhrefniadau gwerthuso staff, ni chânt gyfle i gyfrannu'n uniongyrchol i hunan-arfarnu'r lleoliad. Nodwyd hyn fel blaenoriaeth yng nghynllun gwella'r lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gwybod beth yw cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Drwy anogaeth yr arweinydd, maent yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Wrth hunan-arfarnu, rhoir ystyriaeth ofalus i farn rhieni a manteisia'r lleoliad yn sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Gall ymarferwyr ddangos yn eglur sut maent, trwy hunan-arfarnu, wedi gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau cyflawniad a lles plant.

Mae’r adroddiad hunan-arfarnu ddiweddar, ynghyd â’r cynllun gwella, o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad. Caiff y blaenoriaethau a nodir eu gweithredu’n systematig a thrylwyr gan yr arweinydd a’r ymarferwyr. Gan mai datblygiad diweddar yw hunan-arfarnu, nid yw eto wedi gwreiddio’n gadarn yn nhrefniadau sicrhau gwelliant y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi’u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae’r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu’n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd. Mae’r arfer o ymweld â lleoliadau eraill er mwyn arsylwi arferion da, wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant. Mae'r bartneriaeth gynhyrchiol iawn sydd gyda'r ysgol gynradd yn hwyluso trefniadau trosglwyddo yn sylweddol. Manteisia’r lleoliad yn fawr ar ddefnyddio adnoddau a chyfleusterau'r ysgol ac o ymuno mewn digwyddiadau arbennig megis diwrnod mabolgampau. Mae cysylltiadau cryf gyda nifer o sefydliadau'r pentref. Mae’r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni ym mhob agwedd o waith y lleoliad trwy eu hysbysu'n rheolaidd am yr holl weithgareddau a’u hannog i gyfranogi yn addysg eu plant.

Mae ymweliadau, adroddiadau a chyngor proffesiynol cyson athrawes gysylltiol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad. Mae’r arweinydd hefyd yn derbyn cefnogaeth reolaethol dda gan swyddog datblygu’r Mudiad Meithrin.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda'i gilydd yn dda, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd, os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n dda i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Defnyddir y staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth fanwl o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n hynod o ofalus gan yr arweinydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Trafod â phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |